**Y Gân Newydd**

Mae'r gwaed a redodd ar y groes
O oes i oes i'w gofio;
Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn
I ddweud yn iawn amdano.

Prif destun holl ganiadau'r nef
Yw 'Iddo ef' a'i haeddiant;
A dyna sain telynau glân
Ar uchaf gân gogoniant.

Mae hynod rinwedd gwaed yr Oen
A'i boen wrth achub enaid
Yn seinio'n uwch ar dannau'r nef
Na hyfryd lef seraffiaid.

'Mhen oesoedd rif y tywod mân
Ni bydd y gân ond dechrau;
Rhyw newydd wyrth o'i angau drud
A ddaw o hyd i'r golau.

Nid yw caniadau'r nef yn awr
Ond megis gwawr yn torri,
Yr hon, fel amnaid fechan iawn,
Arddengys lawn oleuni.

Pan ddelo torf y cystudd mawr
O'r anial dirfawr yno,
Dylenwir croth pob dwyfol dant
Ag uwch gogoniant iddo.

Er adrodd sain pob dosbarth glân
O'r ddirfawr gân ddiddarfod,
Ni bydd eu dawn ond isel fri
Am waed i olchi pechod.

***Robert ap Gwilym Ddu***